# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 22 Ionawr 2019

Amser: 08.30 - 08.53

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Ann Jones AC, Dirprwy Llywydd, (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AC<br>Darren Millar AC<br>Rhun ap Iorwerth AC<br>Neil Hamilton AC |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

# 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Anfonodd y Llywydd ei hymddiheuriadau gan ei bod mewn digwyddiad yn Nulyn yn nodi 100 mlynedd ers agor Senedd Iwerddon. Cadeiriodd y Dirprwy Lywydd y cyfarfod.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

**Dydd Mawrth**

- Nododd y Trefnydd fod y rhan fwyaf o fusnes dydd Mawrth wedi'i ohirio tan yr wythnos nesaf er mwyn gwneud lle am gyfres o ddatganiadau ar baratoadau Llywodraeth Cymru am Brexit dim bargen, a'i bod wedi gofyn am gopïau o'r datganiadau llafar hyn i gael eu dosbarthu i lefarwyr yn gynharach yn ystod y dydd nag arfer os yn bosibl.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.

- Atgoffodd Rhun ap Iorwerth Reolwyr Busnes y bydd cangen CPA Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ei Gyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn y Siambr heno.

**Dydd Mercher**

- Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

## 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Trefnydd fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno cynnig i atal y Rheolau Sefydlog a threfnu dadl ar 30 Ionawr yn dilyn y bleidlais yn Nhŷ'r Cyffredin ar 29 Ionawr ar Gytundeb Ymadael â'r UE. Derbyniodd y Rheolwyr Busnes y cynnig i ohirio'r ddadl ar yr 'Adroddiad Blynyddol ar Gamddefnyddio Sylweddau 2018' o 29 Ionawr er mwyn gwneud lle am ddadl ar adroddiadau'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth

Ychwanegol ddydd Mawrth, gan ryddhau amser ar gyfer dadl y Llywodraeth ar 30 Ionawr.

Bydd cynnig ar gyfer dadl y Llywodraeth yn cael ei gyflwyno unwaith y bydd canlyniad y pleidleisiau yn Nhŷ'r Cyffredin yn hysbys.

### 3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn busnes y Cynulliad a chytunodd i gynnwys yr eitemau o fusnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mawrth 29 Ionawr 2019 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ar Barodrwydd ar gyfer Brexit (60 munud)

**Dydd Mercher 30 Ionawr 2019 –**

- ~~Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)~~ – *ni chyflwynwyd cynnig*

**Dydd Mercher 13 Chwefror 2019 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer 2017-18 (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol: cytundeb perthnasau rhyng-sefydliadol rhwng Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

### 3.4 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol yn gofyn am ddadl ar barodrwydd ar gyfer Brexit

Cytunodd y Rheolwr Busnes i gynnal dadl ar 29 Ionawr.

### 3.5 Llythyr yn gofyn am ddadl adroddiad ar Berthynas Cymru â Phwyllgor y Rhanbarthau yn y Dyfodol

Cytunodd y Rheolwr Busnes i gynnal dadl yn y dyfodol.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 LCM ar y Bil Lles Anifeiliaid (Anifeiliaid Gwasanaeth)

Cytunodd Rheolwyr Busnes y dylid cyfeirio'r memorandwm hwn at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a dyddiad cau i adrodd ar 1 Mawrth.

## 5 Y Pwyllgor Busnes

### 5.1 Coladu Canllawiau a gyhoeddwyd gan y Llywydd o dan Reol Sefydlog 6.17

Nododd y Rheolwyr Busnes ddiben a chynnwys y papur, a chytunodd i drafod y papur eto ymhen pythefnos.